



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Adroddiad Blynyddol Twbercwlosis yng Nghymru

Data hyd at ddiwedd 2024

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn bodoli i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant ac i leihau anghydraddoldebau iechyd i bobl yng Nghymru. Rydym yn gweithio'n lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gyda'n partneriaid a'n cymunedau.

Y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Rhif 2 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ
www.publichealthwales.org

Diolchiadau

Hoffai Iechyd Cyhoeddus Cymru ddiolch i bawb a gyfrannodd at systemau data a systemau gwyliadwriaeth ar gyfer twbercwlosis yng Nghymru.

Adroddiad wedi'i baratoi gan grŵp pwnc arbenigol BBV, STI, TB ac Anghydraddoldebau, y Ganolfan Wyliadwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC), Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Awgrym ar gyfer Cyfeiriad: Iechyd Cyhoeddus Cymru (2025). Adroddiad Blynyddol Twbercwlosis yng Nghymru (Data hyd at ddiwedd 2024). Caerdydd, Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Tabl Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol	5
1.1 Diben	5
1.2 Canfyddiadau a thueddiadau allweddol	5
2 Ffynonellau data, cyfyngiadau a methodoleg	7
2.1 System Genedlaethol Gwiliadwriaeth TB.....	7
2.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru	7
2.3 Dilyniannu genomau cyfan a dadansoddiadau clwstwr UKHSA	7
2.4 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.....	8
2.5 Adolygiad carfanau TB cenedlaethol Cymru	8
3 Hysbysiadau a digwyddedd twbercwlosis (TB)	9
3.1 Proffil demograffig achosion TB	10
3.1.1 Dosbarthiad daearyddol	10
3.1.2 Dosbarthiad rhyw ac oedran	11
3.1.3 Gwlad enedigol ac ethnigrwydd.....	12
3.1.4 Ffactorau risg cymdeithasol, amddifadedd a chydafiachedd	15
4 Diagnosis, microbioleg ac ymwrthedd i gyffuriau	19
4.1 Diagnosis a safle'r haint	19
4.2 Achosion aml-gyffur (MDR) ac achosion ag ymwrthedd helaeth i gyffuriau (XDR).	20
5 Triniaeth a chanlyniadau.....	21
5.1 Dechrau'r symptomau hyd at ddechrau'r driniaeth.....	21
5.2 Canlyniadau triniaeth.....	21
5.2.1 Marwolaethau cysylltiedig â TB	23
6 Atal a rheoli TB	24
7 Dilyniannu genomau cyfan.....	25

Ffigurau

Ffigur 1 Cyfraddau Twbercwlosis fesul 100,000 o boblogaeth y DU, 2023	9
Ffigur 2 Nifer yr achosion a chyfradd TB fesul 100,000 o'r boblogaeth (llinell goch) yng Nghymru, 2015-2024.....	10
Ffigur 3 Cyfradd gyfartalog pum mlynedd TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl yr Awdurdod Lleol Preswyl, 2020-2024.....	11
Ffigur 4 Cyfradd TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl grŵp oedran a blwyddyn, 2020-2024	12
Ffigur 5 Nifer cyfartalog blyneddol achosion TB dros bum mlynedd a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl grŵp ethnig, 2020-2024, Cymru.....	14
Ffigur 6 Cyfran (%) o'r achosion TB a aned yn y DU yn ôl ethnigrwydd yng Nghymru, 2020-2024	14
Ffigur 7 Amser rhwng mynediad i'r DU a hysbysiad TB ar gyfer achosion a aned y tu allan i'r DU yng Nghymru, 2020-2024	15
Ffigur 8 Hanes hunan-gofnodedig ffactorau risg cymdeithasol cyfredol ymhlith cleifion TB yng Nghymru 2020-2024	16
Ffigur 9 Hanes y ffactorau risg cymdeithasol hunan-gofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB a aned yn y DU yng Nghymru, 2020-2024	16

Ffigur 10 Hanes y ffactorau risg cymdeithasol hunan-gofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB a aned y tu allan i'r DU yng Nghymru, 2020-2024.....	17
Ffigur 11 Cyfradd gyfartalog 5 mlynedd TB yng Nghymru fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl deigradd amddifadedd, 2020-2024.....	18
Ffigur 12 Amser rhwng dechrau'r symptomau a dechrau'r driniaeth mewn achosion TB yng Nghymru, 2020-2024	21
Ffigur 13 Canlyniad y driniaeth TB ar ôl 12 mis ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o fwy na 12 mis, Cymru, 2019-2023	22

Tablau

Tabl 1 Hysbysiadau TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl y bwrdd iechyd preswyl o 2020-2024	10
Tabl 2 Nifer yr hysbysiadau a chyfradd TB yng Nghymru yn ôl rhyw, 2020-2024	11
Tabl 3 Nifer a chyfran (%) yr achosion TB a aned yn y DU a'r tu allan i'r DU fesul blwyddyn, 2020-2024	12
Tabl 4 Demograffeg achosion TB a aned yn y DU a'r tu allan i'r DU fesul blwyddyn, 2020-2024...	13
Tabl 5 Canran yr achosion TB yng Nghymru â chydafiachedd, 2020-2024	18
Tabl 6 Nifer a chanran yr achosion TB yng Nghymru yn ôl safle'r clefyd, 2020-2024.....	19
Tabl 7 Nifer a chanran yr achosion TB yng Nghymru â chadarnhad bacteriolegol, 2020-2024	20
Tabl 8 Nifer a chanran yr achosion TB yng Nghymru gyda diagnosis blaenorol, 2020-2024.....	20
Tabl 9 Achosion TB ysgyfeiniol gyda chyfnod o fwy na phedwar mis rhwng dechrau'r symptomau a dechrau'r driniaeth yng Nghymru, 2020-2024	21
Tabl 10 Cwblhau triniaeth TB ar ôl 12 mis fesul grŵp oedran ¹ ar gyfer achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis, Cymru, 2019-2023.....	22
Tabl 11 Cwblhau triniaeth TB ar ôl 12 mis yn ôl rhyw ar gyfer achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis, Cymru, 2019-2023	22
Tabl 12 Canlyniad triniaeth TB ar ôl 12 mis fesul Bwrdd Iechyd Preswyl ar gyfer achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis, Cymru, 2019-2023	22
Tabl 13 Canlyniad triniaeth TB ar ôl 12 mis yn ôl safle'r clefyd ar gyfer achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis, Cymru, 2023 ^a	23
Tabl 14 Yr holl achosion TB sensitif i gyffuriau a difrifol yr adroddwyd eu bod wedi marw yn y canlyniad olaf a gofnodwyd, Cymru, 2023	24
Tabl 15 Canran yr achosion sydd wedi cael brechiadau BCG a chanran yr achosion â statws hysbys, 2020-2024.....	24

1 Crynodeb Gweithredol

1.1 Diben

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg epidemiolegol o dwbercwlosis (TB) yng Nghymru. Mae'n cynnwys data ar achosion TB sydd newydd eu diagnosio a adroddwyd drwy'r System Gwiliadwriaeth Twbercwlosis Genedlaethol (NTBS). Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys data Dilyniannu Genomau Cyfan (WGS) a ddarparwyd gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA), ac a ategwyd drwy ddefnyddio NTBS, i ddisgrifio clystyrau o glefyd TB yng Nghymru. Mae'r adroddiad wedi'i anelu at weithwyr iechyd proffesiynol, llunwyr polisi, cyfiawnder troseddol, asiantaethau'r trydydd sector a'r byd academiaidd.

1.2 Canfyddiadau a thueddiadau allweddol

- Cynyddodd nifer yr achosion TB newydd eu diagnosio yng Nghymru o 84 yn 2023 i 95 yn 2024, sef cynnydd yn y digwyddedd blyneddol o 2.7 i 3.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Er gwaethaf y cynnydd hwn, mae yna duedd gyffredinol o ostyngiad yn nigwyddedd TB yng Nghymru ers uchafbwynt o 3.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2014. Er bod Cymru yn gyffredinol yn dal o fewn diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd o wlad lle mae'r digwyddedd yn isel (<10 fesul 100,000 o'r boblogaeth y flwyddyn) ceir cryn amrywiad daearyddol mewn digwyddedd.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Caerdydd a'r Fro sy'n dal â'r cyfraddau TB uchaf (5.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth) yng Nghymru. Er hynny, mae'r gyfradd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi gostwng o 4.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2023 i 2.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2024.
- Yn 2024, arhosodd cyfraddau TB ar eu uchaf ymhlith gwrywod gyda 4.5 fesul 100,000 o'r boblogaeth o'i gymharu ag 1.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth ymhlith benywod, yn gyson â'r blyneddol blaenorol ac eithrio 2022.
- Er bod cyfraddau digwyddedd TB yn dal ar eu uchaf ymhlith y rhai 35-44 oed (5.9 fesul 100,000), cafwyd cynnydd sylweddol yng nghyfradd y rhai 15-24 oed (0.8 i 5.4 fesul 100,000), sef yr uchaf y bu ers dros ddeng mlynedd.
- Mae'r mwyafrif o'r achosion a aned y tu allan i'r DU yn y grŵp oedran 25-54 (66%), tra bo hanner (50%) o'r rhai a aned yn y DU yn 55 oed neu'n hŷn.
- Roedd 71% o'r achosion TB newydd eu diagnosio yng Nghymru yn 2024 ymhlith pobl a aned y tu allan i'r DU. O'r achosion hyn, roedd gan 31% gyfnod cyfwng o dros 11 mlynedd rhwng cyrraedd y DU a hysbysu'r NTBS (canolrif 4 blynedd, IQR 2-14 blynedd). Does dim modd canfod a yw canran yr achosion hyn yn deillio o adfywio haint TB a gafwyd cyn cyrraedd, ei gaffael o'r newydd dros y môr ar ôl cyrraedd yn wreiddiol, neu drwy drosglwyddiad o fewn y DU ar ôl cyrraedd.
- Mae cyfradd gyfartalog pum mlynedd TB yn dal ar ei uchaf ymysg pobl o ethnigrwydd Pacistanaidd neu Ddu-Affricanaidd (78.5 fesul 100,000 a 69.4 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno).
- Yn gyffredinol, dywedodd 14% o'r achosion TB yn 2024 eu hunain fod ganddynt o leiaf un ffactor risg cymdeithasol, a digartrefedd a chamddefnyddio alcohol oedd y ffactorau risg mwyaf cyffredin (7% a 6% yn y drefn honno). Dywedodd 4% fod ganddynt ddau ffactor risg neu fwy, sef gostyngiad o 6% o'i gymharu â 2023.
- Roedd ffactorau risg cymdeithasol yn cael eu hadrodd yn amlach mewn achosion a aned yn y DU gyda 25% o'r rheini'n dweud bod ganddynt o leiaf un

ffactor risg cymdeithasol o'i gymharu â 9% mewn achosion a aned y tu allan i'r DU.

- Mae clefyd TB yn cael ei adrodd yn amlach ymhlith y rhai sy'n byw yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Cynyddodd cyfradd gyfartalog pum mlynedd TB yn y degradd mwyaf difreintiedig o 6.9 i 7.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth tra gostyngodd y gyfradd yn y degradd lleiaf difreintiedig o 1.6 i 1.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth.
- Yn 2024, cafodd 82% o'r holl achosion eu cadarnhau drwy feithriniad. Roedd gan y mwyafrif (63%) o achosion TB yn 2024 safle haint ysgyfeiniol, gydag 83% o'r achosion hyn wedi'u cadarnhau drwy feithriniad. Mae hyn yn dal yn uwch na tharged y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau (ECDC) o 80% ar gyfer cadarnhau twbercwlosis ysgyfeiniol drwy feithriniad.
- O'r achosion ysgyfeiniol (gyda chlefyd all-ysgyfeiniol neu hebddo) gyda sampl sbwtwm, roedd 48% yn bositif ar sail y prawf sbwtwm, gan ddangos risg uchel bosibl o heintio ymlaen.
- O'r 73 o achosion TB a ddangosodd symptomau yn 2024, roedd 45% wedi dechrau triniaeth o fewn dau fis ar ôl i'r symptomau ddechrau. Dechreuodd 14% o'r achosion ysgyfeiniol driniaeth dros bedwar mis ar ôl i'r symptomau ddechrau, sef gostyngiad o 10% o'i gymharu â 2023.
- Mae tueddiadau mewn TB sy'n gwrthsefyll cyffuriau yng Nghymru yn dal yn isel, gyda'r rhai a nodwyd ag 'unrhyw ymwrthedd i un neu fwy o gyffuriau llinell gyntaf', sef 1% yn 2024.

2 Ffynonellau data, cyfyngiadau a methodoleg

2.1 System Genedlaethol Gwyliadwriaeth TB

Mae'r System Genedlaethol Gwyliadwriaeth TB (NTBS) yn system wyliadwriaeth sy'n cael ei rhedeg gan Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (UKHSA) sy'n darparu gwybodaeth fanwl am epidemioleg twbercwlosis yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae timau clinigol yn hysbysu achosion sydd newydd eu diagnosio ac yn diweddarau gwybodaeth am ganlyniadau triniaeth. Mae pawb sy'n cael diagnosis o TB yng Nghymru yn cael eu hadrodd drwy NTBS. Mae'r gwaith tynnu a glanhau data yn cael ei wneud gan UKHSA er mwyn sicrhau nad oes yna ddyblygu ar draws Cymru a Lloegr cyn ei ryddhau i lechyd Cyhoeddus Cymru i'w gyhoeddi.

2.2 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)¹ yw'r mesur swyddogol o amddifadedd cymharol ar gyfer ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n Ystadegyn Cenedlaethol a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru. Mae MALIC yn nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Prif ddiben y mynegai yw darparu'r dystiolaeth i lywio cynlluniau a pholisïau gan gynnwys ariannu neu dargedu rhaglenni a gwasanaethau ar gyfer ardaloedd lleol. Mae MALIC yn rhestru holl Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is Cymru o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig).

Ar hyn o bryd mae MALIC yn cynnwys wyth parth (neu fath) o amddifadedd gwahanol. Mae pob parth yn cael ei lunio o ystod o wahanol ddangosyddion. Y parthau sydd wedi'u cynnwys yn MALIC 2019 yw:

- Incwm
- Cyflogaeth
- Iechyd
- Addysg
- Mynediad i Wasanaethau
- Tai
- Diogelwch Cymunedol
- Amgylchedd Ffisegol

Mae MALIC yn fesur o amddifadedd lluosog sy'n fesur ar sail ardal ac yn fesur o amddifadedd cymharol.

2.3 Dilyniannu genomau cyfan a dadansoddiadau clwstwr UKHSA

Mae gwaith dilyniannu genomau cyfan (WGS) ar samplau o TB a gadarnhawyd drwy feithriniad yng Nghymru yn cael ei wneud gan yr Uned Genomeg Pathogenau (PenGU). Mae gwybodaeth am glystyrau o TB sy'n gysylltiedig â WGS ac sy'n cynnwys dau neu fwy o achosion Cymreig yn cael ei chynhyrchu gan UKHSA gan ddefnyddio canlyniadau WGS. Mae yna drothwy o 12 polymorffedd niwcleotid sengl (SNP) ar gyfer clystyru unigion. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cysylltu gwybodaeth cleifion o'r NTBS â'r data dilyniannu o unigion.

¹ Mae rhagor o wybodaeth am Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru>

2.4 Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn darparu amcangyfrifon o'r boblogaeth ar ganol y flwyddyn ar lefel genedlaethol ac is-genedlaethol ar gyfer y Deyrnas Unedig a'i gwledydd cyfansoddol yn ôl ardal weinyddol, oedran a rhyw (gan gynnwys elfennau ar gyfer newid yn y boblogaeth, oedran canolrifol a dwysedd poblogaeth). Mae'r ystadegau poblogaeth ar gyfer rhywedd, oedran a lleoliad preswyl wedi'u seilio ar ffigurau canol blwyddyn 2024². Mae'r amcangyfrifon o'r boblogaeth ar gyfer grwpiau ethnig yng Nghymru wedi'u seilio ar gyfrifiad 2021 SYG³.

2.5 Adolygiad carfanau TB cenedlaethol Cymru

Mae'r Rhaglen Adolygu Carfanau Genedlaethol yn rhedeg ers 2012 ac mae'n cynnwys Grŵp Cyflawni Anadlol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r adolygiad carfanau yn darparu data estynedig ar bob achos sy'n deillio o'r NTBS (y System Goruchwyliaeth Uwch (ETS) gynt) ac mae'n cyfarfod bob chwarter. Mae gan yr Adolygiadau Carfanau gynrychiolaeth o blith staff meddygol a staff nyrsio ym mhob bwrdd iechyd yn ogystal â'r Tîm Diogelu Iechyd a'r Ganolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) o Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn yr adroddiad hwn, defnyddiwyd data estynedig am achosion sy'n ymwneud â chydafiachedd.

² Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Amcangyfrifon poblogaeth canol 2023:

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/estimatesofthepopulationforenglandandmigration>

³ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Cyfrifiad 2021:


<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/datasets/ethnicgroupbyageandsexinenglandandwales>

3 Hysbysiadau a digwyddedd twbercwlosis (TB)

Yn 2024, cofnodwyd cyfanswm o 95 o achosion newydd o TB yng Nghymru. Mae hyn yn gynydd o 14.5% ers y flwyddyn flaenorol (83 o achosion, 2.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth).

Cyfradd TB yng Nghymru yw'r isaf o hyd yn y DU gyda chyfradd o 2.7 fesul 100,000 yn 2023 o'i gymharu â chyfradd y DU o 7.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Does dim data ar gyfer y pedair gwlad ar gael eto ar gyfer 2024.


Ffigur 1 Cyfraddau Twbercwlosis fesul 100,000 o boblogaeth y DU, 2023



Ffynhonnell: UKHSA, 2023

Mae hysbysiadau a chyfraddau TB yng Nghymru wedi gostwng 18% dros y deng mlynedd diwethaf rhwng 2015 a 2024 (Ffigur 2).

Ffigur 2 Nifer yr achosion a chyfradd TB fesul 100,000 o'r boblogaeth (llinell goch) yng Nghymru, 2015-2024



Ffynhonnell: NTBS, 2024

3.1 Proffil demograffig achosion TB

3.1.1 Dosbarthiad daearyddol

Yn 2024, roedd y nifer uchaf o achosion TB newydd a adroddwyd yn byw yn ardaloedd BIP Caerdydd a'r Fro a BIP Bae Abertawe (28 a 15 achos yn y drefn honno), sef cyfradd o 5.5 a 3.8 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno. Adroddwyd bod y gyfradd isaf yn BIA Powys, sef 0.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth. Dangosir cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl y bwrdd iechyd preswyl yn Nhabl 1.


Tabl 1 Hysbysiadau TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl y bwrdd iechyd preswyl o 2020-2024

Bwrdd Iechyd Lleol	2020	2021	2022	2023	2024
BIP Aneurin Bevan	3.0	3.2	3.2	4.4	2.0
BIP Betsi Cadwaladr	1.6	2.5	1.5	0.7	2.0
BIP Caerdydd a'r Fro	5.0	4.7	3.8	4.2	5.5
BIP Cwm Taf Morgannwg	1.8	2.7	2.3	0.2	2.3
BIP Hywel Dda	0.5	1.8	0.5	1.6	2.6
BIA Powys	3.0	0.7	0.0	3.0	0.7
BIP Bae Abertawe	2.3	2.4	2.3	3.7	3.9

Ffynhonnell: NTBS, 2024

O fewn ardal bwrdd iechyd ceir amrywiad sylweddol yng nghyfradd yr achosion yn ôl yr awdurdod lleol preswyl, fel y gwelir yn Ffigur 3, gyda Chasnewydd a Chaerdydd yn adrodd y cyfraddau uchaf flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda chyfraddau cyfartalog 5 mlynedd (2020-2024) o 9.2 a 6.2 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno.

Ffigur 3 Cyfradd gyfartalog pum mlynedd TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl yr Awdurdod Lleol Preswyl, 2020-2024



Ffynhonnell: NTBS, 2024

3.1.2 Dosbarthiad rhyw ac oedran

O'r 95 o achosion a adroddwyd yn 2024, roedd 73% yn wrywod a 27% yn fenywod (cyfraddau o 4.5 ac 1.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y drefn honno), sef tuedd gyson dros amser ac eithrio 2022, pan oedd y mwyafrif o'r achosion yn fenywod (Tabl 2).


Tabl 2 Nifer yr hysbysiadau a chyfradd TB yng Nghymru yn ôl rhyw, 2020-2024

Rhyw	2020	2021	2022	2023	2024
Benyw	1.7 (28)	2.3 (36)	2.3 (37)	2.4 (39)	1.6 (26)
Gwryw	3.3 (51)	3.6 (54)	2.2 (34)	2.9 (44)	4.5 (69)
Cyfanswm	79	90	71	83	95

Ffynhonnell: NTBS, 2024

Er bod cyfraddau digwyddedd TB yn dal ar eu huchaf ymhlith y rhai 35-44 oed (5.9 fesul 100,000), bu cynnydd sylweddol yng nghyfradd y rhai 15-24 oed (0.8 i 5.4 fesul 100,000), sef yr uchaf y bu ers dros ddeng mlynedd. Gostyngodd y gyfradd yn y grŵp 0-4 oed o 2.6 i 0.7 fesul 100,000 o'r boblogaeth fel y gwelir yn Ffigur 4.

Ffigur 4 Cyfradd TB fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl grŵp oedran a blwyddyn, 2020-2024



Ffynhonnell: NTBS, 2024

3.1.3 Gwlad enedigol ac ethnigrwydd

Gwlad enedigol

Ganed y mwyafrif (71%) o'r achosion TB a adroddwyd yng Nghymru yn 2024 dros y môr (Tabl 3) gyda 29% o'r achosion wedi'u geni yn y DU. Mae cyfran y rhai a aned dros y môr wedi cynyddu 12% o'i gymharu â 2023.

Tabl 3 Nifer a chyfran (%) yr achosion TB a aned yn y DU a'r tu allan i'r DU fesul blwyddyn, 2020-2024

Man geni	2020	2021	2022	2023	2024
Wedi'u geni dros y môr	47 (59%)	58 (64%)	55 (77%)	49 (59%)	67 (71%)
Wedi'u geni yn y DU	30 (38%)	32 (36%)	16 (23%)	34 (41%)	28 (29%)
Anhysbys	2 (3%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm	79	90	71	83	95

Ffynhonnell: NTBS, 2024

O'r 67 a aned y tu allan i'r DU ac a hysbyswyd yn 2024, y gwledydd geni amlaf o ran achosion oedd India (19%) a Bangladesh (13%).

Tabl 4 Demograffeg achosion TB a aned yn y DU a'r tu allan i'r DU fesul blwyddyn, 2020-2024

		2020		2021		2022		2023		2024	
		Heb eu geni yn y DU	Wedi'u geni yn y DU	Heb eu geni yn y DU	Wedi'u geni yn y DU	Heb eu geni yn y DU	Wedi'u geni yn y DU	Heb eu geni yn y DU	Wedi'u geni yn y DU	Heb eu geni yn y DU	Wedi'u geni yn y DU
Rhyw	Benyw	18	9	24	12	29	8	27	12	18	8
	Gwryw	29	21	34	20	26	8	22	22	49	20
Grŵp Oedran	0-24	≤5	≤5	≤5	≤5	≤5	≤5	8	6	19	8
	25-54	36	13	42	16	44	≤5	34	14	44	6
	55	6	14	11	12	10	8	7	14	≤5	14


Roedd dros ddwbl nifer yr achosion o wrywod na chafodd eu geni yn y DU (n=49) o'i gymharu ag achosion a aned yn y DU (n=20) yn 2024, ac roedd y mwyafrif o'r achosion a aned y tu allan i'r DU rhwng 25 a 54 oed (Tabl 4).

Ethnigrwydd

Yn 2024, adroddwyd am 25% o'r achosion TB yn y grŵp ethnig Gwyn gyda'r 75% arall wedi'u hadrodd mewn grwpiau ethnig eraill, sef cynnydd o 10% ers 2023. Mae'r cyfraddau uchaf wedi'u cofnodi yn y poblogaethau Du-Affricanaidd, Indiaidd a Phacistanaidd⁴ (Ffigur 5).

⁴ Cyfraddau fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl ethnigrwydd yn deillio o ddefnyddio data cyfrifiad SYG 2021 <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/ethnicity/datasets/ethnicgroupbyageandsexinenglandandwales>


Ffigur 5 Nifer cyfartalog blynyddol achosion TB dros bum mlynedd a chyfradd fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl grŵp ethnig, 2020-2024, Cymru



Ffynhonnell: Cyfrifiad SYG, 2021

Yn 2024, roedd 64% o'r achosion a aned yn y DU a 9% o'r achosion a aned y tu allan i'r DU o ethnigrwydd Gwyn. Gwelir proffil ethnig achosion TB a aned yn y DU yn ffigur 6.


Ffigur 6 Cyfran (%) o'r achosion TB a aned yn y DU yn ôl ethnigrwydd yng Nghymru, 2020-2024



Ffynhonnell: NTBS, 2024

O’r achosion a hysbyswyd yn 2024 gyda dyddiad cyrraedd yn y DU, cafodd 20% eu diagnosio o fewn 2 flynedd ar ôl cyrraedd. Cafodd 31% ddiagnosis o TB fwy nag 11 mlynedd ar ôl cyrraedd (Ffigur 7). Does dim modd canfod pa gyfran o’r achosion hyn oedd yn deillio o adfywio haint TB a gafwyd cyn cyrraedd, ei gaffael o’r newydd dros y môr ar ôl cyrraedd yn wreiddiol, neu drwy drosglwyddiad o fewn y DU ar ôl cyrraedd.

Ffigur 7 Amser rhwng mynediad i’r DU a hysbysiad TB ar gyfer achosion a aned y tu allan i’r DU yng Nghymru, 2020-2024




Ffynhonnell: NTBS, 2024

3.1.4 Ffactorau risg cymdeithasol, amddifadedd a chydafiachedd

Ffactorau risg cymdeithasol hunan-gofnodedig

Yn 2024, yn gyffredinol, dywedodd 14% o’r achosion eu hunain fod ganddynt o leiaf un ffactor risg cymdeithasol, sef cynnydd bach o’i gymharu â 2023 ond gostyngiad o hyd o’i gymharu â’r cyfnod 2020-2021 (Ffigur 8). Y ffactor risg mwyaf cyffredin yn y garfan oedd digartrefedd ar 7%, gyda chamddefnyddio alcohol yn dilyn yn agos (6%). Nodwyd dau neu fwy o ffactorau risg, sy’n arwydd o risg fwy cymhleth, gan 4%, sef gostyngiad o 4% ers y flwyddyn flaenorol.

Ffigur 8 Hanes hunan-gofnodedig ffactorau risg cymdeithasol cyfredol ymhlith cleifion TB yng Nghymru 2020-2024




Ffynhonnell: NTBS, 2024

Er hynny, mae cyfraddau’r ffactorau risg cymdeithasol yn amrywio’n sylweddol rhwng cleifion a aned yn y DU a chleifion a aned y tu allan i’r DU fel y gwelir yn Ffigurau 9 a 10.

Yn 2024, dywedodd 25% o’r achosion a aned yn y DU fod ganddynt o leiaf 1 ffactor risg, ac roedd gan 11% ddau neu fwy. Y ffactorau â’r gyfran fwyaf oedd camddefnyddio alcohol (21%), defnyddio cyffuriau (14%) a digartrefedd (7%).

Ffigur 9 Hanes y ffactorau risg cymdeithasol hunan-gofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB a aned yn y DU yng Nghymru, 2020-2024




Ffynhonnell: NTBS, 2024

O’r achosion a aned y tu allan i’r DU a adroddwyd yn 2024, dywedodd 9% fod ganddynt o leiaf un ffactor risg a dywedodd 2% fod ganddynt ddau neu fwy. O fewn y boblogaeth

hon, digartrefedd a charchar oedd y ffactorau risg cymdeithasol a adroddwyd amlaf (Ffigur 10).

Ffigur 10 Hanes y ffactorau risg cymdeithasol hunan-gofnodedig cyfredol ymhlith cleifion TB a aned y tu allan i'r DU yng Nghymru, 2020-2024




Ffynhonnell: NTBS, 2024

Amddifadedd

Mae clefyd TB yn cael ei adrodd yn amlach yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Ffigur 11). Mae cyfradd TB wedi bod ar ei uchaf yn y degradd mwyaf difreintiedig⁵ am y deng mlynedd diwethaf. Yn 2024, y gyfradd yn y degradd mwyaf difreintiedig oedd 7.6 fesul 100,000 o'r boblogaeth ac 1.0 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn y degradd lleiaf difreintiedig.

⁵ Fel y'i mesurwyd gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC). Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation>

Ffigur 11 Cyfradd gyfartalog 5 mlynedd TB yng Nghymru fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ôl degradd amddifadedd, 2020-2024



Ffynhonnell: NTBS, 2024

Cydafiacheddau

Lle roedd statws cydafiachedd yn hysbys ar gyfer y rhai a hysbyswyd yn 2024, roedd gan 10% o'r achosion ddiabetes (Tabl 5). Y cydafiachedd amlaf nesaf o fewn y cyfnod pum mlynedd oedd cyflwr imiwnoataliedig (5%) Hepatitis C a Chlefyd cronig yr Afu (4% yr un).

Tabl 5 Canran yr achosion TB yng Nghymru â chydafiachedd, 2020-2024

Cydafiachedd	Cyfartaledd 5 mlynedd (% o gyfanswm yr achosion)
Diabetes	10%
Feirws Hepatitis B	2%
Feirws Hepatitis C	3%
Clefyd Cronig yr Afu	3%
Clefyd Arennol Cronig	1%
Cyflwr imiwnoataliedig ¹	5%

¹ Mae cyflwr imiwnoataliedig yn cynnwys y rhai â chlefydau penodol, cyflyrau llidiol cronig, y rhai ar therapi biolegol a derbynwyr trawsblaniadau

Ffynhonnell: NTBS, 2024

4 Diagnosis, microbioleg ac ymwrthedd i gyffuriau

4.1 Diagnosis a safle'r haint

TB ysgyfeiniol (gyda chlefyd all-ysgyfeiniol neu hebddo) oedd 63% o'r achosion yn 2024 ac o'r rhain, roedd gan 22% glefyd all-ysgyfeiniol hefyd.

Tabl 6 Nifer a chanran yr achosion TB yng Nghymru yn ôl safle'r clefyd, 2020-2024

Safle'r Clefyd*	2020	2021	2022	2023	2024
Ysgyfeiniol*	46 (58%)	56 (62%)	41 (58%)	47 (57%)	60 (63%)
Nodau lymff all-thorasig	9 (11%)	10 (11%)	17 (24%)	23 (28%)	20 (21%)
Nodau lymff mewn-thorasig	10 (13%)	10 (11%)	Llai na 5	Llai na 5	9 (9%)
Plewrol	7 (9%)	8 (9%)	7 (10%)	Llai na 5	6 (6%)
Gastroberfeddol	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	7 (8%)	6 (6%)
CNS - lid yr ymennydd	Llai na 5	Llai na 5	0 (0%)	0 (0%)	Llai na 5
CNS - arall	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	0 (0%)	0 (0%)
Asgwrn - meingefn	Llai na 5	6 (7%)	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5
Asgwrn - arall	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5
Cenhedlol-droethol	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5
Laryngeal	0 (0%)	Llai na 5	0 (0%)	Llai na 5	0 (0%)
Cryptig	0 (0%)	Llai na 5	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)
All-ysgyfeiniol arall	26 (33%)	21 (23%)	12 (17%)	23 (28%)	33 (35%)
Cyfanswm yr achosion	79	90	71	83	95

*Gall clefion fod â chlefyd mewn mwy nag un safle

**Mae TB ysgyfeiniol yn cynnwys TB miliaraidd yn unol ag argymhelliad Sefydliad Iechyd y Byd a diffiniadau adrodd rhyngwladol⁷

Ffynhonnell: NTBS, 2024

Yn 2024, cafwyd cadarnhad drwy feithriniad mewn 82% o'r holl achosion, a chafodd 83% o'r achosion ysgyfeiniol (gyda chlefyd all-ysgyfeiniol neu hebddo) eu cadarnhau drwy feithriniad. Mae hyn yn dal yn uwch na tharged y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau (ECDC) o gadarnhau 80% o dwbercwlosis ysgyfeiniol drwy feithriniad.⁶

Ymhlith 78 o achosion a gadarnhawyd drwy feithriniad:

- roedd 92% yn deillio o *M. tuberculosis*
- roedd 1% yn deillio o *M. bovis*
- Chafodd y 5% arall mo'u hadrodd.

⁶ Y Ganolfan Ewropeaidd ar gyfer Atal a Rheoli Clefydau (ECDC).-

https://www.ecdc.europa.eu/sites/default/files/media/en/publications/Publications/101111_SPR_Progressing_toward_TB_elimination.pdf

Tabl 7 Nifer a chanran yr achosion TB yng Nghymru â chadarnhad bacteriolegol, 2020-2024

Canlyniadau Bacteriolegol	2020	2021	2022	2023	2024
Wedi'u cadarnhau drwy feithriniad ¹	66 (84%)	69 (77%)	53 (75%)	64 (77%)	78 (82%)
Achosion ysgyfeiniol wedi'u cadarnhau drwy feithriniad ²	38 (90%)	52 (96%)	34 (85%)	40 (85%)	50 (83%)
Achosion ysgyfeiniol gyda sbwtwm ²	29 (69%)	28 (52%)	28 (70%)	23 (49%)	33 (55%)
Achosion ysgyfeiniol prawf sbwtwm positif ³	18 (62%)	20 (71%)	15 (54%)	13 (57%)	18 (55%)

¹Yr enwadur ar gyfer y ganran yw cyfanswm yr achosion TB

² Yr enwadur ar gyfer y ganran yw cyfanswm yr achosion TB ysgyfeiniol

³ Yr enwadur ar gyfer y ganran yw nifer yr achosion ysgyfeiniol lle cymerwyd prawf sbwtwm

Ffynhonnell: NTBS, 2024

Tabl 8 Nifer a chanran yr achosion TB yng Nghymru gyda diagnosis blaenorol, 2020-2024

Diagnosis Blaenorol	2020	2021	2022	2023	2024
Oes	Llai na 5	5 (6%)	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5
Nac oes	74 (94%)	74 (82%)	34 (48%)	58 (70%)	66 (69%)
Heb ei adrodd	Llai na 5	11 (12%)	33 (46%)	22 (27%)	25 (26%)
Cyfanswm yr achosion	79	90	71	83	95

Ffynhonnell: NTBS, 2024

Lle roedden nhw wedi'u hadrodd, roedd 100% o'r achosion yn 2024 gyda diagnosis blaenorol wedi cael triniaeth ar gyfer eu cyfnod blaenorol.

4.2 Achosion aml-gyffur (MDR) ac achosion ag ymwrthedd helaeth i gyffuriau (XDR).

Diffinnir MDR TB fel un sy'n gwrthsefyll rifampicin ac isoniazid, dau wrthfotig rheng flaen a ddefnyddir i drin TB. Yn 2021, creodd Sefydliad Iechyd y Byd ddiffiniadau newydd o cyn-XDR ac XDR⁷:

- Cyn-XDR: Straeniau TB sy'n bodloni'r diffiniad o MDR ac sydd ag ymwrthedd ychwanegol i unrhyw fluoroquinolone
- XDR: Straeniau TB sy'n bodloni'r diffiniad o MDR ac sydd ag ymwrthedd ychwanegol i unrhyw fluoroquinolone ac o leiaf un cyffur Grŵp A.

Mae'r WHO yn dweud bod gostyngiad bach (1%) yn 2023 yn nifer y bobl a gafodd driniaeth ar gyfer MDR-TB yn fyd-eang o'i gymharu â 2022.⁸. Does dim data ar gael ar gyfer 2024 eto.

Yn y 5 mlynedd diwethaf, mae 3 achos o MDR wedi'u hadrodd drwy'r NTBS, ond roedd 5 achos arall naill ai heb ymwrthedd i rifampicin (marciwr MDR) neu heb eu hadrodd fel MDR ar NTBS ond wedi cael triniaeth ar gyfer MDR.


⁷ Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) - <https://www.who.int/news/item/27-01-2021-who-announces-updated-definitions-of-extensively-drug-resistant-tuberculosis>

⁸ Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) - [2.4 Drug-resistant TB treatment](#)

5 Triniaeth a chanlyniadau

5.1 Dechrau'r symptomau hyd at ddechrau'r driniaeth

Ffigur 12 Amser rhwng dechrau'r symptomau a dechrau'r driniaeth mewn achosion TB yng Nghymru, 2020-2024



Ffynhonnell: NTBS, 2024

Yn 2024:

- O'r achosion symptomatig, cynyddodd y gyfran a ddechreuodd driniaeth lai na dau fis ar ôl i'r symptomau ddechrau o 26% yn 2023 i 45% yn 2024
- Dechreuodd 14% o'r achosion ysgyfeiniol ar driniaeth dros bedwar mis ar ôl i'r symptomau ddechrau, o'i gymharu â 24% yn 2023 (Tabl 9).

Mae'n bosibl bod sawl ffactor yn dylanwadu ar yr oedi hwn rhwng dechrau'r symptomau a dechrau'r driniaeth gan gynnwys ymddygiad wrth geisio gofal iechyd neu oedi yn y llwybr clinigol. Mae oedi wrth geisio gofal, yn enwedig ymhlith achosion ysgyfeiniol sy'n bositif ar ôl cael prawf sbwtwm, yn golygu bod yna risg bosibl o'i drosglwyddo i eraill.

Tabl 9 Achosion TB ysgyfeiniol gyda chyfnod o fwy na phedwar mis rhwng dechrau'r symptomau a dechrau'r driniaeth yng Nghymru, 2020-2024

Dechrau'r symptomau hyd at ddechrau'r driniaeth	2020	2021	2022	2023	2024
Mwy na 4 mis	11 (26%)	7 (13%)	9 (22%)	10 (21%)	Llai na 5


Ffynhonnell: NTBS, 2024

5.2 Canlyniadau triniaeth

Mae yna adroddiadau cyson am ddata canlyniadau triniaeth ar gyfer y garfan sy'n sensitif i gyffuriau yn unol â'r flwyddyn hysbysu. Nid yw data canlyniadau 2024 wedi'u cwblhau eto oherwydd hyd y driniaeth.

Mae data canlyniadau ar gael ar gyfer 78 (94%) o'r achosion newydd eu diagnosio yn 2023⁹. Cynyddodd cyfran yr achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis ac oedd wedi cwblhau triniaeth o 86% i 89% ers y flwyddyn flaenorol.

Ffigur 13 Canlyniad y driniaeth TB ar ôl 12 mis ar gyfer achosion sy'n sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o fwy na 12 mis, Cymru, 2019-2023



Ffynhonnell: NTBS, 2024

⁹ Cafodd 5 achos eu hepgor oherwydd ymwrthedd cychwynnol ac estynedig i rifampicin ac achosion MDR-TB wedi'u trin a'r rhai â TB CNS, TB yr asgwrn cefn, TB miliaraidd neu TB cryptig wedi'i ledaenu.

Mae Tablau 10 a 13 yn dangos canlyniad y driniaeth fesul grŵp oedran, proffil rhyw, bwrdd iechyd preswyl a safle'r afiechyd yn y drefn honno.

Tabl 10 Cwblhau triniaeth TB ar ôl 12 mis fesul grŵp oedran¹ ar gyfer achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis, Cymru, 2019-2023

Blwyd dyn	5-14	15-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+
2019	8 (100%)	11 (73%)	16 (84%)	14 (82%)	8 (80%)	6 (50%)	11 (73%)
2020	0	9 (100%)	13 (72%)	10 (67%)	11 (69%)	6 (75%)	10 (77%)
2021	Llai na 5 (100%)	Llai na 5 (43%)	16 (59%)	9 (60%)	7 (44%)	5 (45%)	8 (67%)
2022	0	Llai na 5 (100%)	15 (75%)	12 (80%)	11 (79%)	Llai na 5 (60%)	11 (85%)
2023	Llai na 5 (67%)	5 (71%)	13 (81%)	14 (78%)	13 (93%)	8 (80%)	8 (73%)

¹Cafodd 9 achos eu tynnu o'r tabl oherwydd niferoedd isel

Ffynhonnell: NTBS, 2024

Tabl 11 Cwblhau triniaeth TB ar ôl 12 mis yn ôl rhyw ar gyfer achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis, Cymru, 2019-2023

Rhyw	2019	2020	2021	2022	2023
Benyw	30 (91%)	21 (81%)	24 (73%)	30 (88%)	31 (84%)
Gwryw	47 (80%)	37 (80%)	25 (62%)	26 (84%)	33 (80%)

Ffynhonnell: NTBS, 2024

Tabl 12 Canlyniad triniaeth TB ar ôl 12 mis fesul Bwrdd Iechyd preswyl ar gyfer achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis, Cymru, 2019-2023

Bwrdd Iechyd Lleol	2019	2020	2021	2022	2023
BIP Aneurin Bevan	24 (77%)	15 (88%)	12 (75%)	18 (100%)	21 (88%)
BIP Betsi Cadwaladr	13 (87%)	8 (80%)	13 (76%)	7 (88%)	Llai na 5 (40%)
BIP Caerdydd a'r Fro	21 (91%)	22 (96%)	15 (94%)	16 (94%)	17 (85%)
BIP Cwm Taf Morgannwg	10 (77%)	7 (100%)	5 (71%)	9 (90%)	Llai na 5 (100%)
BIP Hywel Dda	Llai na 5 (67%)	Llai na 5 (100%)	Llai na 5 (40%)	Llai na 5 (100%)	5 (83%)
BIA Powys	Llai na 5 (100%)	Llai na 5 (33%)	0	0	Llai na 5 (75%)
BIP Bae Abertawe	Llai na 5 (100%)	Llai na 5 (25%)	0	Llai na 5 (25%)	9 – 75
Preswlydd y tu allan i Gymru	0	Llai na 5 (50%)	Llai na 5 (100%)	Llai na 5 (100%)	6 (100%)

Tabl 13 Canlyniad triniaeth TB ar ôl 12 mis yn ôl safle'r clefyd ar gyfer achosion sensitif i gyffuriau gyda thriniaeth ddisgwyliedig o lai na 12 mis, Cymru, 2023^a

Safle'r afiechyd	Wedi cwblhau	Wedi marw	Ar goll yn y dilyniant
Ysgyfeiniol yn unig	26 (87%)	Llai na 5	Llai na 5
Ysgyfeiniol, gydag EP neu hebddo	31 (89%)	Llai na 5	Llai na 5
All-ysgyfeiniol yn unig	33 (100%)	0	0
Nodau lymff all-thorasig	22 (100%)	0	0
Nodau lymff mewn-thorasig	Llai na 5	0	0
Plewrol	Llai na 5	0	0
Pob safle EP arall	10 (100%)	0	0
Cyfanswm^b	64 (94%)	Llai na 5	Llai na 5

^aHeb gynnwys achosion TB ag ymwrthedd cychwynnol ac estynedig i rifampicin ac achosion MDR-TB a driniwyd a'r rhai â TB CNS, TB asgwrn cefn, TB miliaraidd neu TB cryptig wedi'i ledaenu

^bMae pob safle all-ysgyfeiniol arall yn cynnwys clefyd gastroberfeddol, cenhedlol-droethol, laryngeal, clefyd all-ysgyfeiniol arall ac anhysbys

O'r 35 o achosion lle cofnodwyd canlyniad triniaeth a chlefyd ysgyfeiniol gydag afiechyd all-ysgyfeiniol neu hebddo, cwblhaodd 31 (89%) y driniaeth. Nid oedd unrhyw achosion a gafodd eu trin yn 2023 yn dal wrthi'n cael triniaeth ar ôl 12 mis a rhoddwyd y gorau i'r driniaeth mewn llai na 5.

5.2.1 Marwolaethau cysylltiedig â TB

Yn y 5 mlynedd, 2019-2023, mae cyfran y marwolaethau mewn achosion TB wedi aros yn gymharol isel, gyda'r lefel uchaf yn 9% yn 2021, fel y gwelir yn Nhabl 14.

Tabl 14 Yr holl achosion TB sensitif i gyffuriau a difrifol yr adroddwyd eu bod wedi marw yn y canlyniad olaf a gofnodwyd, Cymru, 2023

Blwyd dyn	Achosion a adroddwyd	Cyfanswm y marwolaethau	TB wedi achosi'r farwolaeth neu wedi cyfrannu ati	TB yn atodol i'r farwolaeth	Anhysbys	Postmortem
2019	99	7 (7%)	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5
2020	79	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5
2021	90	8 (9%)	Llai na 5	Llai na 5	5 (62%)	Llai na 5
2022	71	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5
2023	83	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5	Llai na 5

Ffynhonnell: NTBS, 2024

6 Atal a rheoli TB

Does dim gwybodaeth am sgrinio mewnfudwyr i'r DU cyn iddynt ddod i mewn ar gael fel rhan o'r drefn.

Daeth darparu brechlyn Bacillus Calmette-Guérin (BCG) o fewn amserlen frechu'r GIG yng Nghymru i ben yn 2005; dim ond i blant sydd â risg uchel o ddod i gysylltiad â rhywun â TB y mae'n cael ei gynnig¹⁰. Mae'r brechlyn BCG yn effeithiol o ran amddiffyn plant ifanc rhag mathau difrifol o TB, fel llid yr ymennydd, ond nid yw'n atal heintiad sylfaenol nac adfywio haint TB¹¹ (oedd yn cael ei adnabod gynt fel haint cudd).

Tabl 15 Canran yr achosion sydd wedi cael brechiadau BCG a chanran yr achosion â statws hysbys, 2020-2024

Grŵp Oedran	2020	2021	2022	2023	2024
0-4	-	0% (100%)	0% (100%)	67% (75%)	0% (0%)
5-14	-	100% (100%)	-	0% (0%)	75% (100%)
15-24	67% (67%)	33% (43%)	100% (33%)	100% (29%)	73% (50%)
25-34	77% (72%)	77% (81%)	82% (55%)	100% (56%)	33% (20%)
35-44	50% (53%)	86% (47%)	75% (27%)	67% (33%)	100% (43%)
45-54	85% (81%)	100% (69%)	80% (36%)	62% (57%)	100% (25%)
55-64	100% (75%)	100% (45%)	67% (60%)	83% (60%)	0% (10%)
65+	43% (54%)	71% (58%)	75% (31%)	57% (64%)	50% (25%)

Ffynhonnell: NTBS, 2024

O'r rhai â statws brechu BCG hysbys, roedd 77% o'r achosion yn 2024 wedi'u brechu o'r blaen, sef cynnydd o'i gymharu â 2023 (76%). Roedd y cyfraddau brechu uchaf yn y grwpiau oedran 35-44 a 45-54 oed, lle roedd 100% â statws hysbys wedi'u brechu.

¹⁰ Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) <https://phw.nhs.wales/topics/immunisation-and-vaccines/bcg-tb-vaccine/>

¹¹ Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) <https://www.who.int/teams/health-product-policy-and-standards/standards-and-specifications/norms-and-standards/vaccines-quality/bcg>

7 Dilyniannu genomau cyfan

Cyflwynwyd dilyniannu genomau cyfan (WGS) ar unigion twbercwlosis yng Nghymru yn 2019 er mwyn gwneud gwaith teipio rhywogaethau, teipio ymwrthedd a dadansoddi clystyrau. Mae gan Gymru banel Adolygu gan Gymheiriaid ar gyfer Clystyrau TB sy'n cyfarfod bob deufis i ystyried rheolaeth clystyrau a champau pellach ym maes iechyd y cyhoedd.

Mae clwstwr a nodir gyda WGS yn cael ei ddiffinio fel "2 berson neu fwy sydd â diagnosis o TB gweithredol sydd â gwahaniaeth SNP o lai na 12"¹². Mae gwahaniaeth SNP yn cyfeirio at bolymorffeddau polyniwcleotid sengl (SNPs), sef mwtaniad ar un safle yn y dilyniant DNA. Mae cymhariaeth SNP genomau-cyfan yn cael ei wneud er mwyn adnabod SNPs sy'n wahanol o ran unigion mewn clwstwr sy'n cyfateb â genoteip. Er bod modd diffinio gwahaniaeth 12 SNP fel y trothwy uchaf o berthnasedd genomig rhwng gwesteiywyr sy'n gysylltiedig yn epidemiolegol, rhaid i'r terfynau isaf gael eu hasesu ar sail y sefyllfa neu'r brigiad unigol.

Ers cyflwyno WGS a dadansoddi clystyrau yng Nghymru yn 2019, mae cyfanswm o 37 clwstwr o TB â dau neu fwy o achosion Cymreig wedi'u nodi.

Yn 2024, nodwyd 4 clwstwr newydd â chysylltiadau genomig. O'r 95 o achosion a hysbyswyd yn 2024, roedd 17 o unigolion yn gysylltiedig â chlystyrau ac wedi'u dosbarthu ar draws 10 clwstwr. O'r achosion hyn:

- *Mycobacterium tuberculosis* oedd y mwyafrif o'r achosion
- Ni fernid bod gan yr un ohonynt ymwrthedd aml-gyffur (MDR)
- Roedd y mwyafrif o'r achosion (65%) yn rhai ysgyfeiniol gyda chlefyd all-ysgyfeiniol neu hebddo, ac roedd 8/11 (72%) wedi cael canlyniad positif i brawf sbwtwm.
- Gwelwyd traean o'r achosion TB clystyrog ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n adrodd ar glystyrau a nodir gyda WGS a hynny er mwyn cefnogi mesurau rheoli Diogelu Iechyd. Gan hynny, mae'r adroddiadau hyn yn gyfyngedig.

¹² UKHSA Mycobacterium tuberculosis whole-genome sequencing and cluster investigation handbook. Ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/tb-strain-typing-and-cluster-investigation-handbook/mycobacterium-tuberculosis-whole-genome-sequencing-and-cluster-investigation-handbook>